Cyngor Sir Ceredigion

Pwyllgor Moeseg a Safonau

Canllawiau

Dyletswydd Adrodd Arweinwyr Grwpiau

1. Mae gan arweinwyr grwpiau ddwy ddyletswydd statudol newydd:
    i. Cymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau eu grŵp
    ii. Cydweithredu â'r Pwyllgor Safonau wrth arfer swyddogaethau'r pwyllgor safonau.

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021: Adran 62

2. Gellid barnu bod arweinwyr grwpiau yn dwyn anfri ar eu swydd o dan god ymddygiad y cynghorwyr drwy beidio â chyflawni'r dyletswyddau;
   Nid yw'r ddyletswydd yn gwneud arweinwyr grwpiau yn atebol am ymddygiad eu haelodau.

3. Mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau o dan ddyletswydd i gyflawni'r canlynol:
   a) monitro bod arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor yn cydymffurfio â'u dyletswyddau,
   b) cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor ynghylch materion yn ymwneud â'r dyletswyddau hynny.

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021: Adran 63

4. Mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau hefyd o dan ddyletswydd i baratoi adroddiad blynyddol:
   a) rhaid iddo gynnwys asesiad y pwyllgor ynghylch i ba raddau y mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau, a
   b) gall gynnwys argymhellion neu sylwadau ar y lefelau o ran cydymffurfio â'r dyletswyddau newydd hyn

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021: Adran 63

5. Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r dyletswyddau newydd yn awgrymu'r camau y gallai arweinwyr grwpiau eu cymryd i gyflawni'r rhwymedigaethau hyn;

Mae 4.24 o'r Canllawiau yn nodi'r camau rhesymol y gall arweinydd grŵp eu cymryd yn cynnwys:

- arddangos ymrwymiad personol i gyfleoedd datblygu neu hyfforddiant perthnasol ynghylch cydraddoldeb a safonau, yn cynnwys ar y Cod Ymddygiad, a mynychu cyfleoedd o'r fath;

- annog, yn weithredol, aelodau'r grŵp i fynychu cyfleoedd datblygu neu hyfforddiant perthnasol ynghylch cydraddoldeb a safonau mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad;
- sicrhau bod enwebeion i bwyllgor wedi derbyn yr hyfforddiant a argymhellir ar gyfer bod yn rhan o'r pwyllgor hwnnw;
- hyrwyddo model o foesgarwch a pharch wrth gyfathrebu â'r grŵp ac mewn cyfarfodydd ac mewn cyfarfodydd ffurfiol o'r Cyngor;
- hyrwyddo gweithdrefnau datrys anffurfiol yn y cyngor; a gweithio gyda'r pwyllgor safonau a'r swyddogion monitro i ddod i ddatrysiad yn lleol;
- hyrwyddo diwylliant o fewn y Grŵp sy'n cefnogi safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb;
- mynychu cyfarfod o Bwyllgor Safonau'r Cyngor os gofynnir i wneud hynny er mwyn trafod materion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad;
- gweithio i weithredu unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Safonau ynghylch gwella safonau;
- gweithio gyda'r Pwyllgor Safonau mewn modd rhagweithiol i nodi, ystyried a mynd i'r afael â phatrymau ymddygiad amhriodol yn rhagweithiol;
- cydweithio ag arweinwyr grwpiau eraill, o fewn rheswm, i gefnogi, gyda'i gilydd, safonau ymddygiad uchel o fewn y cyngor a lle mae unrhyw faterion a nodwyd yn cynnwys mwy nag un grŵp gwleidyddol.

6. Rhaid i arweinwyr grwpiau ystyried Canllawiau Llywodraeth Cymru: Canllawiau Statudol ac Anstatudol ar gyfer Prif Gynghorau yng Nghymru – darpariaethau ategol yn Neddf Llywodraeth Leol 2000, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

7. Mae arweinwyr grwpiau eisoes yn cymryd rhai camau i atal materion rhag gwaethygu / lladd materion yn yr egin. Mae'r rhain yn anffurfiol ac yn gyfrinachol ac felly ni ddylid eu hadrodd yn gyhoeddus nac yn unigol;

8. Mae'r templed isod yn seiliedig ar enghreifftiau yng Nghanllawiau Llywodraeth Cymru i atgoffa arweinwyr grwpiau o'r materion sydd i'w cynnwys yn eu hadroddiadau;

9. Er mwyn i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau gadw annibyniaeth oddi wrth faterion gweithredol, bydd yn gofyn i arweinwyr grwpiau adrodd unwaith y flwyddyn. Bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cwrdd â'r arweinwyr grwpiau ar ddechrau pob blwyddyn fwrdeistrefol i gytuno ar nifer o faterion.

Mae 4.36 o'r canllawiau yn nodi "Ar ddechrau pob blwyddyn cyngor dylai arweinwyr grwpiau gwleidyddol gyfarfod â'r pwyllgor safonau i gytuno ar y canlynol":

- Sut y bydd arweinwyr grwpiau a'r pwyllgor safonau yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau safonau o ran ymddygiad priodol;
- Pa mor aml y bydd cyfarfodydd rhwng arweinwyr grwpiau a'r pwyllgor safonau yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn;
- Y trothwy y bydd y pwyllgor safonau yn ei ddefnyddio i benderfynu a yw'n fodlon bod arweinwyr grwpiau gwleidyddol wedi cydymffurfio â dyletswyddau Deddf 2021;
- Y mecanwaith er mwyn bod arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn darparu adroddiadau i'r pwyllgor safonau am y camau y maent wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r dyletswyddau o fewn Deddf 2021.

10. Efallai y bydd Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn dymuno cwrdd â'r arweinwyr grwpiau o bryd i'w gilydd i adolygu ymddygiad yn gyffredinol. Gall y Cadeirydd hefyd ofyn am farn y Swyddog Monitro.

11. Os bydd materion ychwanegol o bwys yn codi yn ystod y flwyddyn, neu faterion y gellid eu codi gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau, megis ceisio sicrwydd gan yr arweinwyr grwpiau, gellir adrodd am y rhain i'r Swyddog Monitro a fydd yn hysbysu'r Pwyllgor Moeseg a Safonau;

12. Bydd arweinwyr grwpiau yn paratoi eu hadroddiad ar gyfer y Pwyllgor Moeseg a Safonau ar ôl y 1af o Ebrill bob blwyddyn.

13. Ni fydd yr adroddiad yn sôn am achosion penodol a bydd yn cyfeirio at y math o gamau a gymerwyd;

14. Bydd y Pwyllgor, wedi hynny, yn cyfarfod â phob arweinydd grŵp yn anffurfiol i archwilio ei adroddiad. Gall y Pwyllgor hefyd ofyn am farn y Swyddog Monitro.

15. Gall y Pwyllgor roi adborth anffurfiol i'r arweinwyr grwpiau.

16. Bydd adroddiad blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cynnwys:
    a) crynodeb byr o'r camau a gymerwyd gan arweinwyr grwpiau i gyflawni'r ddyletswydd
    b) ei farn ynghylch a oes digon wedi'i gyflawni
    c) unrhyw argymhellion ynghylch yr hyn y gall arweinwyr grwpiau ei wneud i gyflawni eu dyletswyddau,
    d) unrhyw argymhellion ynghylch yr hyn y gellir ei wneud i ddangos tystiolaeth o weithredoedd arweinwyr grwpiau,
    e) unrhyw argymhellion ynghylch yr hyn y gellir ei wneud i wella'r mecanwaith adrodd,
    f) pa hyfforddiant ychwanegol sydd ei angen, os o gwbl.
    g) unrhyw ddarnau o waith y gellid eu cyflawni ac ati yn y dyfodol.

17. Bydd adroddiad blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn y cyfarfod nesaf a gynhelir, wedi iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau.

Hyrwyddo Cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad I'w gwblhau gan Swyddog Monitro			
Adroddiad gan:			
Grŵp Gwleidyddol:			
Nifer yr aelodau:		Y nifer sydd wedi derbyn hyfforddiant ar y Cod:	(100%)
		Y nifer sydd wedi mynychu hyfforddiant ar y Cyfryngau Cymdeithasol:	(100%)
Ar gyfer y cyfnod:			

Y Nifer, y Ffynhonnell a Lefel y Cwynion

	Anffurfiol	**Datrysiad Lleol**			**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru / Panel Dyfarnu Cymru**
Y Cyhoedd					
Swyddogion					
Cynghorwyr					
Cyfanswm:					

Camau a gymerwyd i Hyrwyddo'r Cydymffurfio

(I'w gwblhau gan yr Arweinydd Grŵp)

Cynnwys materion megis:

- arddangos ymrwymiad personol i gyfleoedd datblygu neu hyfforddiant perthnasol ynghylch cydraddoldeb a safonau
- annog aelodau'r grŵp i fynychu cyfleoedd datblygu neu hyfforddiant perthnasol ynghylch cydraddoldeb a safonau;
- sicrhau bod enwebeion i Bwyllgor wedi derbyn yr hyfforddiant a argymhellir ar gyfer y Pwyllgor hwnnw;
- gosod esiampl
- defnyddio eu dylanwad i hyrwyddo diwylliant cadarnhaol
- hyrwyddo model o foesgarwch a pharch wrth gyfathrebu â'r grŵp ac mewn cyfarfodydd ac mewn cyfarfodydd ffurfiol o'r Cyngor;
- mynd i'r afael â materion cyn gynted ag y byddant yn codi
- hyrwyddo gweithdrefnau datrys anffurfiol yn y cyngor; a gweithio gyda'r Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Swyddog Monitro i ddod i ddatrysiad yn lleol;
- hyrwyddo diwylliant o fewn y Grŵp sy'n cefnogi safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb;
- mynychu cyfarfod o Bwyllgor Moeseg a Safonau'r Cyngor os gofynnir i wneud hynny er mwyn trafod materion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad;
- mynychu cyfarfodydd bob yn hyn a hyn gyda'r Swyddog Monitro ac arweinwyr grwpiau eraill
- mynychu cyfarfodydd rhwng y Swyddog Monitro ac aelodau o'u grŵp ynghylch mater yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad, yn ôl yr angen
- gweithio i weithredu unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Safonau ynghylch gwella safonau;
- cydweithio ag arweinwyr grwpiau eraill, o fewn rheswm, i gefnogi, gyda'i gilydd, safonau ymddygiad uchel o fewn y Cyngor.
- Gweithio, mewn modd rhagweithiol, gyda'r Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Swyddog Monitro i nodi gofynion hyfforddiant ar gyfer eu hunain a'u haelodau.

Cwestiynau ar gyfer Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol

Cydymffurfio

Ydych chi'n hyderus eich bod yn gwybod am yr hyn a ddisgwylir gennych o ran eich dyletswyddau i gydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021?

Hyfforddiant

- Pa hyfforddiant yr ydych wedi'i fynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?
- Faint o aelodau eich grŵp sydd wedi mynychu hyfforddiant ar y Cod a phryd?
- Faint o aelodau eich grŵp sy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a fynychodd hyfforddiant ar y cyfryngau cymdeithasol a phryd?
- Faint o aelodau eich grŵp sydd wedi derbyn hyfforddiant sy'n berthnasol i'r Pwyllgorau y maent yn aelodau ohonynt?
- Pa hyfforddiant ychwanegol sydd ei angen arnoch chi/ar eich grŵp os o gwbl?
- A yw aelodau eich grŵp wedi cael unrhyw anawsterau wrth gael mynediad at hyfforddiant perthnasol?
    - Os ydynt, ymhelaethwch ar hynny.

Hyrwyddo moesgarwch a pharch ayb.

- Rhowch enghreifftiau o sut yr ydych chi wedi gweithio gydag arweinwyr grwpiau eraill i hyrwyddo safonau ymddygiad uchel yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?
- Pa mor hyderus ydych chi yn eich dealltwriaeth o'ch dyletswyddau fel arweinydd grŵp?
- Rhowch rai enghreifftiau o sut yr ydych chi'n hyrwyddo safonau da ar draws eich grŵp?
- A allwch chi roi enghreifftiau o gamau gweithredu yr ydych chi wedi'u cymryd i hyrwyddo moesgarwch a pharch o fewn eich grŵp?
- Ydych chi'n rhannu achosion Panel Dyfarnu Cymru / Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gyda'ch grŵp?
    - Os ydych, esboniwch sut a phryd.
    - Os nad ydych, esboniwch pam nad ydych yn gwneud hyn.

Gweithio gyda'r Swyddog Monitro (*Y Swyddog Monitro i adrodd ar y rhain)

- O ran hyrwyddo/cynnal safonau ymddygiad uchel a ydych chi'n teimlo eich bod yn cael eich cefnogi'n ddigonol gan y swyddogion priodol?
    - Os nad ydych, beth fyddech chi'n hoffi ei newid/pa gymorth hoffech chi ei dderbyn?
- *A yw arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn gweithio gyda chi/yn derbyn eich cyngor ar ddatrysiad anffurfiol?
- * A yw arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn gweithio'n adeiladol gyda chi ac yn gofyn am gyngor priodol?

- * A yw arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn mynychu cyfarfod misol gyda chi yn rheolaidd?

Gweithio gyda'r Pwyllgor Moeseg a Safonau (**Y Pwyllgor Moeseg a Safonau i benderfynu ynghylch y rhain)

- Beth, os o gwbl, sydd ei angen arnoch gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau i hwyluso cydymffurfio â'ch dyletswyddau fel arweinydd grŵp?
- Ydych chi'n teimlo bod eich grŵp wedi ymrwymo i gyflawni safonau ymddygiad uchel? Rhowch esboniad am eich ateb.
- ** A yw arweinwyr grwpiau wedi mynychu cyfarfodydd gyda'r Pwyllgor Moeseg a Safonau pan ofynnwyd iddynt wneud?
- **Os yw'n berthnasol, a yw arweinwyr grwpiau wedi gweithio gyda'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ôl yr angen i nodi patrymau ymddygiad annerbyniol?

Defnyddiwch y gofod isod ar gyfer unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud